Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

# Prosiect Future Energy Llanwern Solar – EN010171
# Future Energy Llanwern Limited

# Cofnod Cyngor Adran 51 / Section 51 Advice Log
## Fersiwn / Version:
## 7 Mai 2026 / 7 May 2026

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cofnod o'r cyngor adran 51 (a51) a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio i'r ymgeisydd (Future Energy Llanwern Limited) yn ystod y cam cyn ymgeisio. Caiff ei diweddaru gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl pob rhyngweithio â'r ymgeisydd lle y darparwyd cyngor adran 51.

Bydd yr ymgeisydd bob amser yn cael y cyfle i wneud sylwadau ar gofnod drafft yr Arolygiaeth Gynllunio o'r cyngor adran 51 (a51) a ddarparwyd cyn iddo gael ei gyhoeddi ar dudalen berthnasol y prosiect ar wefan Dod o Hyd i Brosiect Seilwaith Cenedlaethol .

**Rôl y cofnod cyngor yn ystod y cam derbyn**

Mae adran 55(4) o Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried, ymhlith pethau eraill, i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi rhoi sylw i'r cyngor adran 51 (a51) a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio mewn cysylltiad â'r cais wrth benderfynu a ellir derbyn y cais i'w archwilio. Mae cyngor adran 51 yn cynnwys:

- cyngor a roddwyd ynghylch gwneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu
- cyngor a roddwyd ynghylch gwneud sylwadau ar gais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio'r cofnod cyngor hwn fel arf i ddangos:

- ei fod wedi rhoi sylw i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd iddo gan yr Arolygiaeth Gynllunio
- ei fod wedi rhoi sylw i unrhyw gyngor adran 51 a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio i eraill

Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno fersiwn derfynol o'r cofnod cyngor hwn fel rhan o'r cais, gan ddangos ei fod wedi rhoi sylw i'r holl gyngor adran 51 a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystod y cam cyn ymgeisio.

This document comprises a record of the s51 advice that has been given by the Planning Inspectorate to the applicant (Future Energy Llanwern Limited) during the pre-application stage. It will be updated by the Planning Inspectorate after every interaction with the applicant within which s51 advice has been given.

The applicant will always be given the opportunity to comment on the Planning Inspectorate's draft record of the s51 advice given before it is published on the relevant project page on the [Find a National Infrastructure Project website](#).

**The role of the advice log at the acceptance stage**

Section 55(4) of the PA2008 requires the Planning Inspectorate to consider, amongst other things, the extent to which the applicant has had regard to the s51 advice given by the Planning Inspectorate in connection with the application when deciding if the application can be accepted for examination. Section 51 advice includes:

- advice given about applying for an order granting development consent
- advice given about making representations about an application for an order granting development consent

The applicant will use this advice log as the tool for demonstrating:

- regard to the s51 advice given to the applicant by the Planning Inspectorate
- regard to any s51 advice given to others by the Planning Inspectorate

The applicant will submit a final version of this advice log which demonstrates regard to all s51 given by the Planning Inspectorate at the pre-application stage as part of the application.

**Prosiect Future Energy Llanwern Solar - Mynegai cyfarfodydd yr ymgeisydd**

| Future Energy Llanwern Solar Project – Applicant meeting index | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**<br>**Date of meeting** | **Trosolwg o'r cyfarfod**<br>**Meeting overview** |
| 13 Rhagfyr 2024<br>13 December 2024 | Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio ar y Ddogfen Rhaglen<br>PINS comments on the Programme Document |
| 20 Rhagfyr 2024<br>20 December 2024 | Cyfarfod Diweddaru Prosiect:<br>• Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)<br>• Datganiad Polisi Cenedlaethol<br>• Dylunio Da<br>• Caffael Gorfodol<br>• Perchnogaeth Gymunedol<br>• Llinell Amser y Rhaglen<br>• Dogfen Rhaglen<br><br>Project Update Meeting:<br>• Site of special scientific interest (SSSI)<br>• National Policy Statement (NPS)<br>• Good Design<br>• Compulsory acquisition (CA)<br>• Community Ownership<br>• Programme Timeline<br>Programme Document |
| 23 Ionawr 2025<br>23 January 2025 | Ymholiad yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)<br>Query relating to the Water Framework Directive (WFD) |
| 30 September 2025<br><br>30 Medi 2025 | Cyfarfod Diweddaru Prosiect:<br><br>- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)<br>- Adolygiad dylunio annibynnol<br>- Adolygu dogfennau drafft<br>- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<br>- Cyngor Cymuned Redwick<br>- Esblygiad dylunio<br>- Hysbysiad adran 46<br>- Cyfieithiad Cymraeg<br>- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>- Cyfarfodydd diweddaru prosiect yn y dyfodol<br><br>Project Update Meeting: |

| | |
|---|---|
| | - Local Planning Authorities (LPAs)<br>- Independent design review<br>- Draft document review<br>- Habitat Regulation Assessment (HRA)<br>- Redwick Community Council<br>- Design evolution<br>- Section 46 notice<br>- Welsh translation<br>- Natural Resources Wales (NRW)<br>- Future project update meetings |
| 07 Mai 2026<br><br>07 May 2026 | Cyfarfod Diweddaru Prosiect:<br>• Diweddariad ar y prosiect<br>• Y rhaglen<br>• Ymgynghoriad<br>• Y prif faterion ac ymatebion<br>• Cwmpas arfaethedig deunydd ychwanegol i'w gynnwys gyda'r cyflwyniad DCO na chwblhawyd ar adeg y PEIR<br>• Unrhyw fater arall<br><br>Project Update Meeting:<br>• Project Update<br>• Programme<br>• Consultation<br>• Main Issues and Responses<br>• Proposed scope of additional content to include with the DCO submission not completed at PEIR<br>AOB |
| 16 Gorffenaf 2026<br><br>16 July 2026 | Cyngor mewn perthynas â diwygiadau i Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008)<br>Advice in relation to amendments to the Planning Act 2008 (PA2008) |

| **Future Energy Llanwern – Cofnod o gyngor adran 51 a ddarparwyd i'r ymgeisydd /<br>Log of s51 given to the applicant** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad yr ymholiad: 13 Rhagfyr 2024**<br>**Meeting date: 13 December 2024** | | |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| 13 Rhagfyr 2024 | **Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio ar y Ddogfen Rhaglen (Rhagfyr 2024)**<br><br>• Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau bod y Ddogfen Rhaglen yn cael ei chynnal ar wefan yr Ymgeisydd;<br>• Os oes unrhyw ddiweddariadau i'r Ddogfen Rhaglen, anfonwch y fersiwn wedi'i diweddaru at yr Arolygiaeth cyn gynted ag y gwneir diweddariadau;<br>• Mae'r Ddogfen Rhaglen yn nodi y disgwylir i Ymgynghoriad Statudol ddigwydd ym 'mis Mai 2025'. Dylai'r Ddogfen Rhaglen gael ei diweddaru maes o law i ddarparu'r dyddiadau penodol ar gyfer y cyfnod ymgynghori; | |

| | | |
|---|---|---|
| 13 December 2024 | • Disgwylir i'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori gael ei chyflwyno ym mis Medi 2025. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd hefyd yn disgwyl cyflwyno'r cais ym mis Medi 2025. Dylai'r Ymgeisydd fod yn ymwybodol bod Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar y cam cyn-ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cynghori y dylai'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori gael ei chyflwyno o leiaf 3 mis cyn cyflwyno'r cais. Fel y cyfryw, mae'r Arolygiaeth yn cynghori'r Ymgeisydd i ystyried y mater hwn a gwneud unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i'r Ddogfen Rhaglen;<br>• Nid yw'r Ddogfen Rhaglen yn darparu unrhyw raddfeydd amser ar gyfer cyflwyno dogfennau drafft i'w hadolygu gan yr Arolygiaeth, nac yn cadarnhau pa ddogfennau a gyflwynir. Dylid diweddaru'r Ddogfen Rhaglen i ddarparu dyddiad cywir ar gyfer cyflwyno'r dogfennau hyn, gan ganiatáu cyfnod o chwe wythnos i'w hadolygu gan yr Arolygiaeth a sicrhau digon o amser cyn dyddiad cyflwyno'r cais i ddangos ystyriaeth o sylwadau'r Arolygiaeth; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Ddogfen Rhaglen ddarparu graddfeydd amser bras ar gyfer cyfarfodydd diweddaru ar y prosiect gyda'r Arolygiaeth. Byddai hefyd yn ddefnyddiol rhestru unrhyw gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol yn y dyfodol i alluogi'r partïon hynny i drefnu adnoddau'n effeithiol.<br><br>A yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddwyieithog o'r Ddogfen Rhaglen ar ei wefan?<br><br>**PINS comments on the Programme Document (December 2024)**<br><br>• The Applicant must ensure that the Programme Document (PD) is hosted and maintained on the Applicant's website;<br>• If there are any updates to the PD, please send the updated version to the Inspectorate as soon as updates are made;<br>• The PD sets out that Statutory Consultation is due to take place in 'May 2025'. The PD should be updated in due course to provide the specific dates for the consultation period; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • The Adequacy of Consultation Milestone (AoCM) is to be submitted in September 2025. However, the Applicant also envisages submitting the application in September 2025. The Applicant should be aware of the Planning Act 2008: Pre-application stage for Nationally Significant Infrastructure Projects guidance advises that the AoCM should be submitted no later than 3 months before application submission. As such the Inspectorate advises the Applicant to consider this matter and carry out any necessary updates to the PD;<br>• The PD does not provide any timescales for the submission of draft documents for the Inspectorate's review, or confirmation of what documents will be submitted. The PD should be updated to provide an accurate date for this submission, allowing a six-week period for the Inspectorate's review and ensuring sufficient time before the application submission date to demonstrate regard to the Inspectorate's comments;<br>• It would be helpful if the PD could provide approximate timescales for project update meetings with the | |

| | | |
|---|---|---|
| | Inspectorate. It would also be helpful to list any future meetings with key stakeholders to enable those parties to deploy resources effectively.<br><br>Is the Applicant intending to publish a bilingual version of the PD on its website? | |
| **Dyddiad yr ymholiad: 20 Rhagfyr 2024**<br>**Meeting date: 20 December 2024** | | |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)<br><br>Site of special scientific interest (SSSI) | Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 yn datgan na ddylai datblygiad o fewn neu'r tu allan i SoDdGA sy'n debygol o gael effaith niweidiol arno, yn unigol neu ar y cyd â phrosiectau eraill, gael ei ganiatáu fel arfer, oni bai bod buddion datblygu'r lleoliad arfaethedig yn amlwg yn drech na'r effeithiau ar y SoDdGA. Fel y cyfryw, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos yn glir yn y cais pam nad yw'n ystyried y bydd effaith niweidiol, yn unigol nac ar y cyd â datblygiadau eraill, ar y SoDdGA, a/neu pam y mae'n ystyried bod buddion y cynllun yn drech nag unrhyw effeithiau negyddol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | National Policy Statement EN-1 states that development within or outside a SSSI that is likely to have an adverse effect on it, alone or in combination with other projects, should not normally be permitted, unless the benefits of development of the proposed location clearly outweigh the impacts on the SSSI. As such, the applicant will need to clearly demonstrate in the application why it does not consider that there will be an adverse impact, alone or in combination with other developments, on the SSSI, and/or why it considers that the benefits of the scheme outweigh any negative impacts. | |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol<br><br>National policy statement (MPS) | Er bod EN-1 hefyd yn nodi bod blaenoriaeth genedlaethol hanfodol i ddarparu seilwaith carbon isel o arwyddocâd cenedlaethol, mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn dangos yn glir sut mae'r hierarchaeth liniaru wedi cael ei chymhwyso yn nogfennau'r cais.<br><br>Whilst EN-1 also sets out that there is a critical national priority (CNP) for the provision of nationally significant low carbon infrastructure, it is important that the applicant clearly demonstrates how the mitigation hierarchy has been applied in the application documents. | |

| | | |
|---|---|---|
| Dylunio Da<br><br>Good Design | Rhoddodd yr Arolygiaeth wybod i'r ymgeisydd am ei thudalen gyngor Dylunio Da a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac awgrymodd fod yr ymgeisydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei ddogfennau cais.<br><br>Awgrymodd yr Arolygiaeth hefyd fod yr ymgeisydd yn gwylio'r weminar Dylunio Da a gynhaliwyd yn ddiweddar, gan sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu yn nogfennau'r cais.<br><br>Awgrymodd yr Arolygiaeth hefyd fod yr ymgeisydd yn ystyried cael adolygiad dylunio annibynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru, sef proses a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer Prosiectau Seilwaith eraill o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru. Yna, fe ddylai hyn gael ei gofnodi yn y dogfennau dylunio, gan ddangos esblygiad y dyluniad yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd o'r broses honno.<br><br>The Inspectorate made the applicant aware of its Good Design advice page recently published and suggested that the applicant ensures this is reflected in its application documents.<br><br>The Inspectorate also suggested that the applicant observe the Good Design webinar which was recently held, ensuring that it is reflected in the application documents. | |

| | | |
|---|---|---|
| | The Inspectorate also suggest that the applicant considers undertaking an independent design review from the Design Commission for Wales, a process which has recently been undertaken on other Welsh NSIPs. This should then be recorded in the design documents, demonstrating the evolution of the design following comments received from that process. | |
| Caffael Gorfodol (CA)<br><br>Compulsory acquisition (CA) | Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i geisio cytuno ar unrhyw hawliau tir angenrheidiol yn gynnar a rhoi diweddariadau ar unrhyw bwerau Caffael Gorfodol tebygol a geisir yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, maes o law.<br><br>The Inspectorate advised the applicant to seek to agree any necessary land rights at an early stage and provide updates on any likely CA powers that will be sought in the Development Consent Order in due course. | |
| Perchnogaeth Gymunedol<br><br>Community Ownership | Nododd yr Arolygiaeth y bydd yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd amlygu'r buddion cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn ystod digwyddiadau ymgynghori a dangos sut mae cynigion sy'n cynnwys perchnogaeth gymunedol wedi datblygu yn yr adroddiad ymgynghori. | |

| | | |
|---|---|---|
| | The Inspectorate noted that it will be useful for the applicant to highlight the community benefits included in the proposal during consultation events and demonstrate how proposals with community ownership have progressed in the consultation report. | |
| Llinell Amser y Rhaglen<br><br>Programme Timeline | Cydnabu’r Arolygiaeth y rhaglen heriol a chynghorodd yr ymgeisydd i beidio ag esgeuluso ansawdd er mwyn cyflymder. Mae’n bwysig i’r ymgeisydd ymgysylltu’n effeithiol â’r partïon allweddol cyn cyflwyno’r cais, a’i fod o safon foddhaol i’w dderbyn i’w archwilio, o dan a55 Deddf Cynllunio 2008.<br><br>Nododd yr Arolygiaeth hefyd y dylid bod yn ymwybodol o linellau amser prosiectau eraill yn yr ardal er mwyn osgoi cynnal ymgynghoriadau ochr yn ochr â’r rhain, a allai greu dryswch.<br><br>The Inspectorate acknowledged the challenging programme and advised the applicant not to compromise quality for speed. It is important that the applicant engages effectively with key parties prior to the submission of the application, and that it is of a satisfactory standard to be accepted for examination, under s55 of the PA2008. | |

| | | |
|---|---|---|
| | The Inspectorate also noted to be aware of other projects' timelines in the area and to avoid running consultations alongside these to avoid confusion. | |
| Dogfen Rhaglen<br><br>Programme Document | Amlygodd yr Arolygiaeth bwysigrwydd cadw'r llinell amser yn gywir yn y ddogfen rhaglen i alluogi'r Arolygiaeth a phartïon eraill allweddol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu trefnu'n effeithiol.<br><br>The Inspectorate highlighted the importance of keeping the timeline accurate on the programme document to enable the Inspectorate and other key parties to ensure resources are deployed effectively. | |
| **Dyddiad yr ymholiad: 23 Ionawr 2025**<br>**Meeting date: 23 January 2025** | | |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| 23 Ionawr 2025 | **<u>Ymholiad</u>**<br><br>Rydym wedi bod yn adolygu'r angen posibl am asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn rhan o'r cyflwyniad ac wedi dod i'r | |

| | | |
|---|---|---|
| 23 January 2025 | casgliad nad yw'n angenrheidiol ar gyfer y broses gydsynio. Ga' i ofyn am farn yr Arolygiaeth Gynllunio ar hyn?<br><br>**<u>Ymateb</u>**<br><br>Yn y pen draw, mater i'r Ymgeisydd yw ystyried p'un a oes angen cwblhau asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer y cais, ac fe ddylai drafod ei safbwynt gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Os nad yw'r Ymgeisydd o'r farn bod angen asesiad, dylid esbonio hyn yn glir yn nogfenau'r cais, gan gynnwys unrhyw gytundeb gan CNC.<br><br>Fel y gwyddoch, mae cydweithwyr yn nhîm Gwasanaethau Amgylcheddol yr Arolygiaeth yn ystyried cais cwmpasu'r Ymgeisydd ar hyn o bryd, a bydd Barn Gwmpasu'n cael ei chyhoeddi ar 29 Ionawr 2025. Mae'n bosibl y bydd y mater hwn yn cael ei gynnwys yn y Farn Gwmpasu. Yna, bydd yr Ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal yn unol â'r Farn, a lle na roddwyd sylw i ofynion yn y Farn, mae'n rhaid i'r Ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad clir dros beidio â gwneud hynny, gan gynnwys cytundeb gan randdeiliaid perthnasol ar y mater. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Query**<br><br>We've been reviewing the potential need for WFD assessment as part of the submission and we've concluded that it isn't required for the consenting process. Please can I request that PINs provide their view on this?<br><br>**Response**<br><br>Ultimately, it is for the Applicant to consider whether it is necessary to complete a WFD assessment for the application and should discuss its position with Natural Resources for Wales (NRW). If the Applicant does not consider an assessment to be necessary, this should be clearly explained in the application documents, including any agreement from NRW.<br><br>As you are aware, colleagues in the Inspectorate's Environmental Services team are currently considering the Applicant's scoping request, and a Scoping Opinion will be issued by 29 January 2025. It is possible that matters surrounding this issue will be included within the Scoping Opinion. The Applicant will then be responsible for ensuring that the Environmental Impact Assessment is carried out in accordance with the Opinion, and where requirements in the Opinion have not been addressed, the | |

| | | |
|---|---|---|
| | Applicant must provide clear justification for not doing so, including agreement from relevant stakeholders on the matter. | |
| **Dyddiad yr ymholiad: 30 Medi 2025**<br>**Meeting date: 30 September 2025** | | |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)<br><br>Local Planning Authorities (LPAs) | Holodd yr Arolygiaeth a yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) yn gyfarwydd â'r broses Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad yw'r ACLlau dan sylw yn gyfarwydd â'r broses NSIP ar hyn o bryd. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i annog yr ACLlau i archwilio cyfleoedd i rannu adnoddau. Nodwyd, mewn achosion lle nad oes gan ACLlau lawer o brofiad o weithdrefnau NSIP, bod cydweithio a chronni adnoddau yn gallu bod yn fuddiol i gyflawni'r prosiect yn effeithiol.<br><br>Cyfeiriodd yr Arolygiaeth at brosiect piblinell Stanford i Lundain fel enghraifft o hyn, lle daeth nifer o gynghorau Llundain at ei gilydd a phenodi un cynrychiolydd i ymateb i | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwestiynau ar ran yr holl awdurdodau a oedd yn cymryd rhan.<br><br>The Inspectorate queried whether the Local Planning Authorities (LPAs) are familiar with the Nationally Significant Infrastructure Project (NSIP) process.<br>The applicant confirmed that the LPAs involved are not currently familiar with the NSIP process. The Inspectorate advised the applicant to encourage LPAs to explore opportunities for resource sharing. It was noted that, in cases where LPAs have limited experience with NSIP procedures, collaborative working and pooling of resources can be advantageous to the effective delivery of the project.<br><br>The Inspectorate referenced the Stanford to London pipeline project as an example of this, where multiple London councils joined forces and appointed a single representative to respond to questions on behalf of all participating authorities. | |
| Adolygiad dylunio annibynnol<br><br>Independent design review | Gofynnodd yr Arolygiaeth a yw'r ymgeisydd wedi cynnal adolygiad dylunio annibynnol. Dywedodd yr ymgeisydd fod adolygiad dylunio annibynnol yn parhau i gael ei ystyried. Amlygodd yr Arolygiaeth werth | |

| | | |
|---|---|---|
| | adolygiadau o'r fath, gan gyfeirio at eu heffaith gadarnhaol yn ystod NSIP Minehilaeath ac y gallai helpu i wneud yr archwiliad yn fwy didrafferth.<br><br>The Inspectorate asked whether the applicant has undertaken an independent design review. The applicant advised that an independent design review remains under consideration. The Inspectorate highlighted the value of such reviews, referencing their positive impact during the Minehilaeath NSIP and that it could assist in a smoother examination. | |
| Adolygu dogfennau drafft<br><br>Draft document review | Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai adolygiad dogfennau drafft fod yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd, o ystyried y dewisoldeb sy'n bresennol yn y gorchymyn cydsyniad datblygu drafft a chymhlethdod y cynlluniau gwaith, gan bwysleisio bod cyflwyno dogfennau drafft yn gallu helpu i wneud yr archwiliad yn fwy didrafferth. Nododd fod hyn yn cynnwys cyfnod o chwe wythnos pan fydd dogfennau drafft yn cael eu hadolygu.<br><br>Anogodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ddarparu fersiynau datblygedig o ddogfennau, lle bo'n bosibl, i alluogi adborth ystyrlon ac adeiladol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd hefyd y gallai adolygu penodau cyflwyniadol yn y Datganiad Amgylcheddol (ES) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).<br><br>The Inspectorate explained that a draft document review may be useful to the applicant, given the optionality present in the draft development consent order and complexity of the works plans, emphasising that submitting draft documents can support a smoother examination. It noted that this consists of a six-week period during which draft documents are reviewed.<br><br>The Inspectorate encouraged the applicant to provide progressed versions of documents where possible, to enable meaningful and constructive feedback.<br><br>The Inspectorate also advised the applicant that it could review introductory chapters in the Environmental Statement (ES) and the Habitat Regulation Assessment (HRA). | |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<br><br>Habitat Regulation Assessment (HRA) | Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i fonitro cynnydd prosiect Solar Frodsham, mewn perthynas â'r asesiad HRA, gan nodi y bu anghytundeb rhwng Natural England a'r ymgeisydd ynglŷn â methodoleg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd ystyried y materion a godwyd gan yr Awdurdod Archwilio a cheisio eu hosgoi er mwyn helpu i wneud yr archwiliad yn fwy didrafferth.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth na ddylai mesurau lliniaru a ychwanegwyd yn benodol i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safle cynefinoedd gael eu hystyried yn ystod cam sgrinio'r HRA. Yn lle hynny, mae'n rhaid i fesurau o'r fath gael eu hystyried yn yr asesiad priodol (os oes angen).<br><br>The Inspectorate advised the applicant to monitor the progress of the Frodsham Solar project, in relation to the HRA assessment, noting that there had been disagreement between Natural England and the applicant regarding methodology. The Inspectorate advised that the applicant should consider the issues raised by the Examining Authority and seek to avoid them to facilitate a smoother examination.<br><br>The Inspectorate advised that mitigation measures which have been specifically added to achieve the purpose of avoiding or reducing its harmful effects on a habitats site should not be considered at the screening stage of the HRA. Such measures must | |

| | | |
|---|---|---|
| | instead be considered in the appropriate assessment (if required). | |
| Cyngor Cymuned Redwick<br><br>Redwick Community Council | Nododd yr ymgeisydd fod cymuned Redwick yn cael ei diddymu ar hyn o bryd a chadarnhaodd ei fod yn bwriadu parhau i gydnabod y gymuned fel cyngor at ddibenion y cais. Wrth ymateb, cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'r dull hwn yn briodol ac argymhellodd fod y gymuned yn cael ei thrin fel cyngor statudol ar hyd yr achos.<br><br>The applicant has indicated that the Redwick community is currently undergoing dissolution and has confirmed its intention to continue recognising the community as a council for the purposes of the application. In response, the Inspectorate advised that this approach would be appropriate and recommended that the community be treated as a statutory council for the duration of the proceedings. | |
| Esblygiad dylunio<br><br>Design evolution | Gofynnodd yr ymgeisydd i'r Arolygiaeth a oedd ganddi enghraifft dda o sut i gofnodi ei benderfyniadau dylunio ac esblygiad dylunio. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd fod ceisiadau'n aml yn cynnwys pennod ar ddylunio a dewisiadau amgen yn y Datganiad Amgylcheddol. Cyfeiriodd yr Arolygiaeth hefyd at brosiectau ar y rhaglen | |

| | | |
|---|---|---|
| | mabwysiadwr cynnar, fel NSIPau Outer Dowsing a Datgarboneiddio Cory, a gyflwynodd ddogfennau ymagwedd ddylunio a chydymffurfio â pholisïau.<br><br>Cyfeiriodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd hefyd at y tudalennau cyngor ar ddylunio da fel man cychwyn defnyddiol os bydd yr ymgeisydd yn dewis datblygu dogfen esblygiad dylunio. Cynghorodd yr ymgeisydd i ddefnyddio dull o'r brig i lawr ar gyfer hyn, gan ddechrau o'i weledigaeth lefel uchel a'i rhannu i ddisgrifio sut y datblygodd. Holodd yr ymgeisydd a ddylid cynnwys cyfleoedd economaidd lleol. Dywedodd yr Arolygiaeth fod hyn yn dderbyniol, ar yr amod ei fod yn rhan o amcanion y prosiect.<br><br>The applicant asked the Inspectorate if they had a good example of how to record its design decisions and evolution. The Inspectorate advised the applicant applications frequently contain an ES chapter on design and alternatives. The Inspectorate also referenced projects on the early adopter programme, such as the Outer Dowsing and Cory Decarbonisation NSIPs, who submitted design approach and policy compliance documents. | |

| | | |
|---|---|---|
| | The Inspectorate also signposted the applicant to the good design advice pages as a useful starting point if the applicant opts to develop a design evolution document. It advised the applicant to take a top-down approach to this, starting from its high-level vision and breaking it down to develop a story of how its progressed. The applicant queried if local economic opportunity should be included. The Inspectorate advised that this is acceptable, providing its part of the project's objectives. | |
| Hysbysiad adran 46<br><br>Section 46 notice | Atgoffodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i gyflwyno ei hysbysiad adran 46 cyn y dyddiad y mae ymgynghoriad statudol yr ymgeisydd yn dechrau neu ar y dyddiad hwnnw.<br><br>The Inspectorate reminded the applicant to submit its section 46 notice before or on the date the applicant's statutory consultation commences. | |
| Cyfieithiad Cymraeg<br><br>Welsh translation | Cynghorodd yr Arolygiaeth, yn gyffredinol, y sicrheir bod dogfennau annhechnegol ar gael yn Gymraeg, fel arfer.<br><br>The Inspectorate advised that, as a general practice, non-technical documents are typically made available in Welsh. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br><br>Natural Resources Wales (NRW) | Pwysleisiodd yr Arolygiaeth bwysigrwydd datrys unrhyw faterion yn ymwneud â CNC a'r HRA yn ystod y cam cyn-ymgeisio. Cynghorodd y bydd datrys y materion hyn yn gynnar yn helpu i sicrhau archwiliad mwy didrafferth.<br><br>Amlygodd yr ymgeisydd anghysondeb rhwng y metrig Budd Net i Fioamrywiaeth a gymhwyswyd i brosiectau NSIP a'r gofynion a amlinellir yn nogfennau polisi Cymru. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd geisio arweiniad gan CNC i sicrhau bod ei ddull arfaethedig yn briodol.<br><br>Cynghorodd hefyd y dylai CNC ddeall y broses NSIP, o ganlyniad i'r NSIPau amrywiol sy'n bodoli yng Nghymru.<br><br>The Inspectorate emphasised the importance of resolving any issues relating to NRW and the HRA during the pre-application phase. It advised that early resolution of these matters will help ensure a smoother examination.<br><br>The applicant identified a discrepancy between the Biodiversity Net Gain (BNG) metric applied to NSIP projects and the | |

| | | |
|---|---|---|
| | requirements outlined in Welsh policy documents. The Inspectorate advised the applicant to seek guidance from Natural Resources Wales (NRW) to ensure their proposed approach is appropriate.<br><br>It also advised that NRW should have an understanding of the NSIP process, due to the various Welsh NSIPs in existence. | |
| **Dyddiad yr ymholiad: 07 Mai 2026**<br>**Meeting date: 07 May 2026** | | |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| Diweddariad ar y Prosiect | Esboniodd yr ymgeisydd fod yr ymgynghoriad statudol wedi'i gwblhau, bellach. Esboniodd fod arolygon coedyddiaeth wedi'u cwblhau a bod arolygon ecolegol yn dod i ben, gan gynnwys adar sy'n bridio, ystlumod, madfallod dŵr cribog ac asesiad wedi'i dargedu o goed lle mae ystlumod yn clwydo. Esboniodd yr ymgeisydd fod yr Adroddiad Carreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori wedi'i lunio ac y bwriedir ei gyflwyno ym mis Mehefin. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd yr ymgeisydd fod y materion allweddol canlynol wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad statudol:<br><br>• Ecoleg ac adareg<br>• Tirwedd a gweledol<br>• Treftadaeth (archaeoleg)<br>• Polisi cynllunio, gan gynnwys rôl Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) a rhyngweithio â Pholisi Cymru<br>• Rhyngweithio â seilwaith presennol, gan gynnwys Llain Glustogi Dŵr Cymru.<br><br>Esboniodd yr ymgeisydd fod newidiadau wedi'u gwneud i'r datblygiad arfaethedig yn dilyn yr ymgynghoriad o ganlyniad i sylwadau ynglŷn ag effeithiau ar y Llwybr Arfordirol. Roedd y rhain yn cynnwys dileu caeau o'r ffin ddeheuol ac adleoli paneli, gan wasgaru'r effaith weledol ar Lwybr Arfordir Cymru a gwarchod y llain glustogi helaeth.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) wedi ystyried effeithiau gweledol pellter hir o dderbynyddion gweledol ar ochr ddeheuol Aber Afon Hafren. | |

| | | |
|---|---|---|
| Project Update | Dywedodd yr ymgeisydd nad yw'r LVIA yn cynnwys sylwadau penodol ar y potensial ar gyfer y golygfeydd pellter hir hyn a chynghorodd ymhellach, o ystyried y pellter gwahanu rhwng y datblygiad arfaethedig ac ochr ddeheuol Aber Afon Hafren ac uchder a ffurf y morglawdd yn y canol, na ddisgwylir effeithiau gweledol sylweddol ar bellter hir. Esboniodd hefyd ei fod wedi ymgysylltu â'r awdurdodau ar draws yr aber ac wedi cael sylwadau llawn gan Ogledd Gwlad yr Haf a De Swydd Gaerloyw.<br><br>The applicant explained that statutory consultation is now completed. They explained that arboricultural surveys are completed and ecological surveys are not concluding including breeding bird, bat, GCN and targeted bat roost tree assessment. The applicant explained that the Adequacy of Consultation Milestone Report is drafted and intended to be submitted in June.<br><br>The applicant explained that the following key issues arose during statutory consultation:<br><br>• Ecology and ornithology<br>• Landscape and visual<br>• Heritage (archaeology) | |

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>Planning policy including role of NPSs and interaction with Welsh Policy</li><li>Interaction with existing infrastructure including Welsh Water Buffer.</li></ul><br>The applicant explained that following consultation, changes have been made to the proposed development as a result of comments on impacts on the Coastal Path. This included the removal of fields from the southern boundary and panels relocated, breaking up visual impact to Wales Costal Path and preserving extensive buffer.<br><br>The Inspectorate queried whether the Landscape and Visual Impact Assessment (LVIA) had considered long-distance visual effects from visual receptors on the southern side of the Severn Estuary.<br><br>The applicant stated that the LVIA does not contain specific commentary on the potential for these long-distance views and further advised that, having regard to the separation distance between the proposed development and the southern side of the Severn Estuary and the intervening height and form of the sea wall, no significant long-distance visual effects are anticipated. They also explained that they engaged with the authorities across the estuary and received | |

| | | |
|---|---|---|
| | full comments from North Somerset and South Gloucestershire. | |
| Y Rhaglen | Amlinellodd yr ymgeisydd y rhaglen gyfredol, sef:<br><br>• Ymgynghoriad anstatudol: Medi 2024 – Awst 2025;<br>• Cyflwyno Adroddiad Cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA): Rhagfyr 2024<br>• Derbyn Barn Gwmpasu AEA: Ionawr 2025<br>• Cyfnod Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned: Hydref 2025 – Tachwedd 2025<br>• Cyfnod Ymgynghori Statudol: Rhagfyr 2025 – 15 Chwefror 2026<br>• Paratoi Datganiadau Tir Cyffredin: Parhaus<br>• Carreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori: Mehefin 2026<br>• Adolygu Dogfennau gan yr Arolygiaeth Gynllunio: Medi – Hydref<br>• Cyflwyno'r Cais: Tachwedd 2026<br><br>Esboniodd yr ymgeisydd ei fod yn paratoi Datganiadau Tir Cyffredin a Datganiadau Dealltwriaeth ar hyn o bryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| Programme | Holodd yr ymgeisydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer adolygu dogfennau drafft a gofynnodd a fyddai adborth yn cael ei roi o fewn cyfnod o chwe wythnos. Dywedodd yr Arolygiaeth er bod y cyfnod adolygu safonol yn chwe wythnos, y byddai'n ceisio darparu sylwadau'n gynt, os oes modd. Gofynnodd yr ymgeisydd hefyd a ellid rhannu'r Datganiad Cynllunio'n gynt i amlinellu'r safbwynt polisi. Croesawodd yr Arolygiaeth hyn a chynghorodd hefyd nad yw'n cynnal adolygiad llawn o'r Datganiad Amgylcheddol ar y cam hwn, ond bydd y bennod 'Disgrifiad o'r Prosiect' yn cael ei hadolygu. Dylai'r ymgeisydd amlygu unrhyw faterion unigryw neu annodweddiadol yn glir.<br><br>The applicant set out the current programme which was as follows:<br><br>• Non-statutory consultation: September 2024 – August 2025;<br>• EIA Scoping Report Submitted: December 2024<br>• EIA Scoping Opinion Received: January 2025<br>• Statement of Community Consultation Period: October 2025 – November 2025<br>• Statutory Consultation Period: December 2025 – 15 February 2026 | |

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>Preparation of Statements of Common Ground: Ongoing</li><li>Adequacy of Consultation Milestone: June 2026</li><li>PINS Document Review: September – October</li><li>Application Submitted: November 2026</li></ul>The applicant explained that they are currently preparing Statements of Common Ground and Understanding.<br><br>The applicant queried the review arrangements for draft documents and asked whether feedback would be provided within a six-week period. The Inspectorate advised that whilst the standard review period is six weeks, it would endeavour to provide comments sooner where possible. The applicant also asked whether the Planning Statement could be shared at an earlier stage to outline the policy position. The Inspectorate welcomed this and also advised that it does not undertake a full review of the Environmental Statement at this stage, however a review of the project description chapter will be undertaken. Any bespoke or atypical matters should be clearly flagged by the applicant. | |

| | | |
|---|---|---|
| Y Prif Faterion ac Ymatebion | Crynhodd yr ymgeisydd y materion allweddol a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>O ran Ecoleg ac Adareg, esboniwyd bod tir lliniaru ar gyfer adar yn cael ei gwblhau'n derfynol a bod gwaith arolygu ychwanegol yn mynd rhagddo. Esboniwyd bod mesurau lliniaru ar gyfer madfallod dŵr cribog a cholli gwrychoedd yn parhau, a bod dealltwriaeth bellach o byllau a chwantwm y prysgwydd sy'n ofynnol a'u bod yn cael eu cynllunio.<br><br>O ran Tirwedd a Gweledol, esboniodd yr ymgeisydd fod yr effeithiau ar Lwybr Arfordir Cymru wedi cael eu hystyried a'u lliniaru trwy newidiadau i'r gosodiad.<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd ddiweddariad ar faterion treftadaeth, gan nodi bod CADW wedi cyhoeddi arweiniad newydd ar ffermydd solar a chynghori bod Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig wedi cael ei baratoi ac y bydd yn cael ei gyflwyno i Heneb yn ystod yr wythnos nesaf. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yn cynnwys opsiynau lliniaru ac y bwriedir gohirio unrhyw ymchwiliadau ymwthiol tan y cyfnod ar ôl cydsyniad, i'w sicrhau trwy gyflawni gofynion. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol parhau i ymgysylltu â'r ymgyngoreion perthnasol a | |

| | | |
|---|---|---|
| Main Issues and Responses | cheisio cadarnhad bod arfer gorau priodol yn cael ei ddilyn.<br><br>Ceisiodd yr ymgeisydd gadarnhad hefyd ynglŷn â sut byddai gwrthdaro posibl rhwng gwahanol gyfundrefnau polisi'n derbyn sylw. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r dogfennau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (dDCO), gan gynnwys fframwaith Deddf Cynllunio 2008), amlinellu'n glir sut mae tensiynau polisi'n cael eu rheoli, gan gydnabod er y gallai nifer o gyfundrefnau fod yn berthnasol, y brif ystyriaeth yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) a chyfundrefn Deddf Cynllunio 2008. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i adolygu Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPau) blaenorol i weld sut oedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi mynd i'r afael â materion o'r fath. Cynghorodd yr Arolygiaeth hefyd y dylid edrych ar brosiect gwynt alltraeth Cei Connah fel enghraifft o sut yr ymdriniwyd â hyn yn flaenorol.<br><br>Yn ogystal, cyfeiriodd yr Arolygiaeth at brofiad o NSIPau eraill, gan gynnwys prosiect Ynni Gwyrdd Fosse, lle ceisiodd yr Awdurdod Archwilio fanylion pellach ynglŷn â chroesfannau piblinell. Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n ystyried y pwynt hwn ymhellach ac, os yw'n berthnasol, byddai'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhoi cyngor ychwanegol yn y cofnod ar ôl y cyfarfod.<br><br>The applicant summarised the key issues and responses received during the consultation period.<br><br>With regard to Ecology and Ornithology, it was explained that mitigation land is being finalised for birds and additional survey work underway. It was explained that mitigation for GCN and hedgerow loss is ongoing with ponds and quantum of required scrum now understood and being planned.<br><br>With regard to Landscape and Visual, the applicant explained that the impacts on Wales Coast Path have been considered and mitigated through layout changes.<br><br>The applicant provided an update on heritage matters, noting the publication of new CADW guidance on solar farms and advising that a Written Scheme of Investigation (WSI) has been prepared and will be submitted to Heneb in the coming week. The applicant confirmed that the WSI includes mitigation options and that any intrusive investigations are proposed to be deferred to post-consent, to be secured through the discharge of requirements. The Inspectorate advised that it would be useful | |

| | | |
|---|---|---|
| | to continue engagement with the relevant consultees and to seek confirmation that appropriate best practice is being followed.<br><br>The applicant also sought confirmation on how potential conflicts between different policy regimes would be addressed. The Inspectorate advised that the draft Development Consent Order (dDCO) documentation, including the Planning Act 2008 (PA2008) framework, should clearly set out how policy tensions are managed, acknowledging that while multiple regimes may be material, the National Policy Statements (NPS) and the PA2008 regime are the primary consideration. The Inspectorate advised the applicant to review previous Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIPs) for how such matters were addressed by the Secretary of State. The Inspectorate also advised to look at Conna's Quay off-shore wind project as an example of how this has been navigated previously.<br><br>The Inspectorate additionally referenced experience from other NSIPs, including the Fosse Green Energy project, where the Examining Authority sought further detail in relation to pipeline crossings. The Inspectorate advised it would undertake further consideration of this point and, if | |

| | | |
|---|---|---|
| | relevant, provide additional post-meeting advice in the log. | |
| Cwmpas arfaethedig deunydd ychwanegol i’w gynnwys gyda’r cyflwyniad DCO na chwblhawyd ar adeg y PEIR | Esboniodd yr ymgeisydd gwmpas arfaethedig deunydd ychwanegol i’w gynnwys gyda’r cyflwyniad DCO na chwblhawyd ar adeg yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) o ganlyniad i ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig – y gofynnwyd amdano gan Heneb ac sy’n cael ei baratoi.<br>• Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus – y gofynnwyd amdano gan Gyngor Sir Fynwy (MCC) ond awgrymwyd ei ohirio i ofyniad.<br>• Cyfrif Defnydd gan Gerddwyr<br>• Astudiaeth Ddesg UXO<br>• Asesiad Risg Rhagarweiniol Cam 1<br>• Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol<br>• Cynllun Rheoli Gwastraff Safle Amlinellol<br>• Asesiad Maes Electromagnetig<br>• Diweddariad ar Ganlyniadau Llifogydd<br>• Cynllun Rheoli Sŵn Gweithredol<br>• Arolwg Sŵn Ychwanegol<br><br>Gofynnodd yr ymgeisydd am gyngor ar yr angen am gynlluniau rheoli yn gysylltiedig â | |

| | | |
|---|---|---|
| Proposed scope of additional content to include with the DCO submission not completed at PEIR | Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW), gan nodi ansicrwydd ynglŷn â ph'un a oes angen cynlluniau ffurfiol neu a fyddai egluro'r effeithiau'n ddigonol. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'n ystyried y mater hwn ymhellach. Holodd yr ymgeisydd hefyd a oedd angen cyfrif cerddwyr a defnydd ar gyfer pob hawl tramwy cyhoeddus, a ph'un a ellid gohirio astudiaeth ddesg ordnans heb ffrwydro (UXO) a'i sicrhau trwy ofyniad yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried ar gyfer gweithredu pellach ac yn derbyn sylw trwy gyngor dilynol.<br><br>The applicant explained the proposed scope of additional content to include with the DCO submission not completed at PEIR as a result of consultation. These included the following:<br><br>• Written Scheme of Investigation – Requested by Heneb and being prepared.<br>• Public Right of Way Management Plan – Requested by MCC but suggested it deferred to a requirement.<br>• Pedestrian User Counts<br>• UXO Desk Study | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Phase 1 Preliminary Risk Assessment<br>• Outline Soil Management Plan<br>• Outline Site Waste Management Plan<br>• Electromagnetic Field Assessment<br>• Flood Consequences Update<br>• Operation Noise Management Plan<br>• Additional Noise Survey<br><br>The applicant requested advice on the need for management plans in relation to Public Rights of Way (PRoW), noting uncertainty as to whether formal plans are required or whether clarity on impacts would be sufficient. The Inspectorate advised it would take this matter away for further consideration. The applicant also queried whether pedestrian and user counts were required for all public rights of way, and whether an unexploded ordnance (UXO) desk study could be deferred and secured through a Development Consent Order requirement. The Inspectorate advised that these matters would be taken away for further action and addressed through subsequent advice. | |
| Unrhyw fater arall | Gofynnodd yr Arolygiaeth a oes unrhyw dir o fewn y safle y dylid ystyried ei fod yn gysylltiedig â’r Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a’r Ardal Cadwraeth | |

| | | |
|---|---|---|
| AOB | Arbennig (ACA) gyfagos yn swyddogaethol. Dywedodd yr ymgeisydd, yn seiliedig ar y data arolwg a gasglwyd hyd yma, na ystyrir bod y tir yn gysylltiedig yn swyddogaethol. Ychwanegodd yr ymgeisydd, er gwaethaf y safbwynt hwn, fod y cynllun yn cynnwys ardaloedd lliniaru ar gyfer rhywogaethau adar perthnasol. Nododd yr Arolygiaeth fod y mater hwn wedi cael ei drafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac er nad yw CNC wedi nodi'n benodol fod y tir wedi'i gysylltu'n swyddogaethol, bod y dehongliad yn amrywio rhywfaint. Cynghorodd yr Arolygiaeth, o ystyried materion methodolegol tebyg sy'n codi yn gysylltiedig â phrosiectau eraill, gan gynnwys prosiect Solar Frodsham, y byddai'n fuddiol parhau i ymgysylltu â CNC a, lle bo'n bosibl, ceisio cytuno ar y mater hwn cyn cyflwyno.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth am ddiweddariad ar yr ymagwedd at gaffael gorfodol a meddiant dros dro. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bwriedir sicrhau'r holl fuddiannau tir trwy gytundebau gwirfoddol. Nodwyd bod mwyafrif y safle eisoes dan reolaeth wirfoddol, a dim ond ardaloedd cyfyngedig y gallai fod angen eu caffael yn orfodol.<br><br>The Inspectorate asked whether any land within the site should be considered | |

| | | |
|---|---|---|
| | functionally linked to the nearby Special Protection Area (SPA) and Special Area of Conservation (SAC). The applicant advised that, based on the survey data collected to date, the land is not considered to be functionally linked. The applicant further advised that, notwithstanding this position, the scheme incorporates areas of mitigation for relevant bird species. The Inspectorate noted that this matter has been discussed with Natural Resources Wales (NRW) and that, while NRW has not explicitly identified the land as functionally linked, there remains some variation in interpretation. The Inspectorate advised that, given similar methodological issues arising on other projects, including the Frodsham Solar project, it would be beneficial to continue engagement with NRW and, where possible, seek alignment on this issue in advance of submission.<br><br>The Inspectorate asked for an update on the approach to compulsory acquisition and temporary possession. The applicant confirmed that all land interests are intended to be secured through voluntary agreements. It was noted that the majority of the site is already under voluntary control, with only limited areas potentially requiring compulsory acquisition. | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor ar ôl y cyfarfod | **Croesfan piblinell**<br>Mae'r Arolygiaeth yn nodi bod y datblygiad arfaethedig yn golygu croesi seilwaith piblinell sydd eisoes yn bodoli. Bydd derbynioldeb croesfan o'r fath yn dibynnu ar y datrysiad technegol penodol a gynigir, gan gynnwys lleoliad perthynol y piblinellau (e.e. p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn mynd uwchben neu o dan y cyfarpar presennol) a'r fethodoleg adeiladu.<br><br>Yn gyffredinol, byddai'r Arolygiaeth yn disgwyl i'r ymgeisydd ymgysylltu â'r ymgymerwr/ymgymerwyr statudol perthnasol yn gynnar i gytuno ar fanylion technegol y groesfan. Dylai hyn gynnwys, lle bo'n bosibl, cytundeb ar y canlynol:<br>• methodoleg y groesfan;<br>• pellterau gwahanu a mesurau amddiffynnol;<br>• trefniadau adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw; ac<br>• unrhyw ofynion ar gyfer mynediad, monitro, neu waith yn y dyfodol.<br><br>Byddai'r Arolygiaeth fel arfer yn disgwyl i'r materion hyn gael eu sicrhau trwy Ddarpariaethau Amddiffynnol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft. Lle daethpwyd i gytundeb, anogir yr ymgeisydd i: | |

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>adlewyrchu'r safbwynt cytunedig yn y Darpariaethau Amddiffynnol drafft;</li><li>darparu dogfennau technegol ategol (e.e. lluniadau a datganiadau dull);</li><li>a chyflwyno tystiolaeth o gytundeb, er enghraifft trwy Ddatganiad Tir Cyffredin (SoCG), cytundeb ochr, neu ohebiaeth sy'n cadarnhau'r dull cytunedig.</li></ul><br>Lle na ddaethpwyd i gytundeb ar yr adeg cyflwyno, dylai'r ymgeisydd amlinellu'n glir y materion yr anghytunir arnynt a'r camau sy'n cael eu cymryd i'w datrys.<br><br>Mae'r Arolygiaeth hefyd yn cynghori'r ymgeisydd i ystyried penderfyniadau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys <u>prosiect Piblinell Southampton i Lundain</u>.<br><br>**Cynlluniau rheoli PRoW**<br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori ei bod yn arferol mewn archwiliadau NSIP i ymgeiswyr baratoi a sicrhau Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) pan fydd y datblygiad yn effeithio ar lwybrau presennol. Mae cynlluniau o'r fath, a gyflwynir yn aml ar ffurf amlinellol ar y cam ymgeisio ac a sicrheir trwy ofynion DCO, yn darparu dull o reoli cau dros dro, gwyriadau, trefniadau mynediad ac adfer, gan sicrhau bod | |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithiau ar ddefnyddwyr yn cael eu lliniaru'n ddigonol ac yn gallu cael eu rheoli'n briodol yn ystod adeiladu a gweithredu.<br><br>**Cyfrif cerddwyr a defnyddwyr PRoW**<br>O ran cyfrif cerddwyr a defnyddwyr, dylai'r angen am ddata o'r fath fod yn gymesur â lefel debygol yr effaith ar y PRoW. Fel arfer, ni fyddai angen cyfrif ar gyfer pob llwybr lle mae'r effeithiau'n gyfyngedig neu dros dro ac y gellir eu hasesu'n ddigonol trwy arolygon, tystiolaeth sylfaenol a barn broffesiynol. Fodd bynnag, pan fydd yr effeithiau'n llai sicr, neu yr ystyrir bod y dystiolaeth yn annigonol, fe allai'r Awdurdod Archwilio ddewis archwilio'r mater hwn ymhellach yn ystod yr archwiliad ac fe allai arwain at ofyn am wybodaeth ychwanegol. O ran llwybrau y disgwylir iddynt brofi lefelau uwch o ddefnydd, neu lle gallai'r effeithiau fod yn fwy arwyddocaol, gall darparu data ynglŷn â defnydd helpu i ddangos bod mesurau lliniaru priodol wedi'u hamlygu. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod cynnig yr ymgeisydd i gyfrif ar Lwybr Arfordir Cymru, sef y llwybr lle y disgwylir y defnydd mwyaf, yn ddull cymesur, ar yr amod bod yr asesiad o effeithiau ar lwybrau eraill yn ddigon cadarn.<br><br>**Astudiaeth ddesg UXO** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd lefel yr ymchwiliad geoffisegol sy'n angenrheidiol, trwy arolygon UXO ymwthiol neu anymwthiol, i ganfod, mapio, ac asesu risg ordnans heb ffrwydro ar dir neu o fewn amgylcheddau morol cyn i ddatblygiad ddechrau yn dibynnu ar y risg debygol o fewn y safle neu'n agos iddo. Felly, bydd graddau'r asesiad a'r mesurau lliniaru sy'n angenrheidiol yn cael eu llywio fel arfer gan astudiaeth ddesg UXO ac asesiad risg sy'n nodi risg gymedrol i uchel, fel safleoedd lle'r oedd gweithgarwch milwrol yn y gorffennol, targedau bomio a rhyfel blaenorol, meysydd awyr milwrol (gan gynnwys safleoedd cwymplanio), afonydd ac aberoedd lle y gellid bod wedi gollwng arfau rhyfel, a seilwaith milwrol arall. Gall cofnodion o ansawdd da a data helaeth sydd ar gael sy'n manylu ar unrhyw dir y mae UXO yn effeithio arno (neu y mae'n debygol y gallai effeithio arno) roi dealltwriaeth dda i ymgeiswyr o'r risgiau tebygol o'r dechrau.<br><br>Cynghorir yr ymgeisydd i ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) a chyrff statudol eraill perthnasol ynglŷn â'i strategaeth UXO a chytuno ar gwmpas yr arolygon a'r asesiadau sy'n angenrheidiol cyn i'r cais gael ei gyflwyno, gan sicrhau y dilynir gofynion statudol a chanllawiau perthnasol. Yna, bydd yr amodau sylfaenol a manylion / canfyddiadau cysylltiedig yn | |

| | | |
|---|---|---|
| Post-meeting Advice | cael eu darparu fel arfer fel atodiad technegol i'r Datganiad Amgylcheddol (gan gynnwys Asesiad o Effaith Tanio UXO, lle y bo angen), a bydd unrhyw fapiau sy'n dangos parthau lefel perygl UXO manwl o fewn yr ardal astudio ac asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol yn cael eu darparu ym mhenodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol.<br><br>Fe allai'r ymgeisydd ddymuno adolygu adrannau perthnasol Adroddiad Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio a phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer 'Croesfan Tafwys Isaf' fel enghraifft. Mae UXO wedi bod yn rhan o'r archwiliad o gais 'Fferm Solar Frodsham' yn ddiweddar hefyd (gweler Cwestiynau Ysgrifenedig 1 a 2 yr Awdurdod Archwilio yn gysylltiedig ag effeithiau posibl tanio ordnans heb ffrwydro ar dderbynyddion ecolegol). Bydd Awdurdod Archwilio eisiau bod yn fodlon bod ymgeisydd wedi cymryd y camau angenrheidiol i amlygu lefel y risg a llywio gweithdrefnau ymateb y cam adeiladu o'i asesiad a'i strategaeth a bod y dogfennau rheoli (fel Cofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC) a'r Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP)) a Gofynion y DCO drafft yn ddigonol i reoli a lliniaru UXO, yn seiliedig ar lefel y risg a amlygwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Pipeline crossing**<br>The Inspectorate notes that the proposed development involves a crossing of existing pipeline infrastructure. The acceptability of such a crossing will depend on the specific technical solution proposed, including the relative positioning of the pipelines (e.g. whether the proposed development passes above or below the existing apparatus) and the construction methodology.<br><br>The Inspectorate would generally expect the applicant to engage with the relevant statutory undertaker(s) at an early stage to agree the technical details of the crossing. This should include, where possible, agreement on:<br>• the crossing methodology;<br>• separation distances and protective measures;<br>• construction, operation, and maintenance arrangements; and<br>• any requirements for access, monitoring, or future works.<br><br>The Inspectorate would typically expect these matters to be secured through Protective Provisions within the draft Development Consent Order. Where agreement has been reached, the applicant is encouraged to: | |

| | | |
|---|---|---|
| | <ul><li>reflect the agreed position in the draft Protective Provisions;</li><li>provide supporting technical documentation (e.g. drawings and method statements);</li><li>and submit evidence of agreement, for example through a Statement of Common Ground (SoCG), side agreement, or correspondence confirming the agreed approach.</li></ul><br>Where agreement has not been reached at the point of submission, the applicant should clearly set out the matters in dispute and the steps being taken to resolve them.<br><br>The Inspectorate also advises the applicant to have regard to relevant Secretary of State decisions, including the Southampton to London Pipeline project.<br><br>**PRoW management plans**<br>The Inspectorate advises that it is common practice in NSIP examinations for applicants to prepare and secure a Public Rights of Way (PRoW) Management Plan where the development affects existing routes. Such plans, often submitted in outline at the application stage and secured through DCO requirements, provide a mechanism to manage temporary closures, diversions, access arrangements and reinstatement, | |

| | | |
|---|---|---|
| | ensuring impacts on users are adequately mitigated and can be appropriately controlled during construction and operation.<br><br>**PRoW pedestrian and user counts**<br>With regard to pedestrian and user counts, the need for such data should be proportionate to the likely level of impact on PRoW. It would not typically be necessary to undertake counts for all routes where impacts are limited or temporary and can be adequately assessed through surveys, baseline evidence and professional judgement. However, where impacts are less certain, or evidence is considered insufficient, this is a matter which the Examining Authority may choose to explore further during examination and could result in additional information being requested. For routes expected to experience higher levels of use, or where impacts may be more significant, the provision of usage data can assist in demonstrating that appropriate mitigation has been identified. In this context, the applicant’s proposal to undertake counts on the Wales Coast Path, as the route with the highest anticipated usage, is considered a proportionate approach, provided the assessment of effects on other routes is sufficiently robust.<br><br>**UXO desk study** | |

| | | |
|---|---|---|
| | The level of geophysical investigation needed, via intrusive or non-intrusive UXO surveys, to detect, map, and assess the risk of unexploded ordnance on land or within marine environments before development commences will depend on the likely risk within or near the site. The degree of assessment and mitigation needed is therefore typically informed by an UXO desk study and risk assessment indicating moderate to high risk, such as sites with past military activity, previous bombing and wartime targets, military airfields (including crash-landing sites), rivers and estuaries where munitions may have been dropped, and other military infrastructure. Quality records and extensive available data detailing any affected (or likely to be affected) land from UXO can provide applicants with a good understanding of what the risks are likely to be from the outset.<br><br>The applicant is advised to consult the Military of Defence (MOD) and other relevant statutory bodies on its UXO strategy and to agree the scope of surveys and assessments needed before the application is submitted, ensuring relevant guidance and statutory requirements are followed. The baseline conditions and related details / findings will then typically be | |

| | | |
|---|---|---|
| | provided as a technical appendix to the Environmental Statement (including a UXO Detonation Impact Assessment where needed), with any maps detailing UXO hazard level zones within the study area and an assessment of likely significant effects provided within the relevant Environmental Statement chapters.<br><br>The applicant may wish to review the relevant sections of the Examining Authority's Recommendation Report and the Secretary of State's decision for 'Lower Thames Crossing' as an example. The matter of UXO has also recently formed part of the examination of the 'Frodsham Solar Farm' application (see the ExA's Written Questions 1 and 2 in relation to possible impacts on ecological receptors from unexploded ordnance detonations). An Examining Authority will want to be satisfied that an applicant has taken the necessary steps to identify the level of risk and informed the construction phase response procedures from its assessment and strategy and that the control documents (such as a Register of Environmental Actions and Commitments (REAC) and Code of Construction Practice (CoCP)) and draft DCO Requirements are sufficient to manage and mitigate UXO, based on the level of risk identified. | |

| Dyddiad y cyngor: 16 Gorffenaf 2026<br>Advice date: 16 July 2026 | | |
|---|---|---|
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**Applicant regard to s51 advice given** |
| Cyngor mewn perthynas â diwygiadau i Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008)<br>Advice in relation to amendments to the Planning Act 2008 (PA2008) | Yng ngoleuni'r fframwaith cyfreithiol diwygiedig a gyflwynwyd o 24 Gorffennaf 2026 gan Ddeddf Cynllunio a Seilwaith 2025, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio cyngor ysgrifenedig i'r ymgeisydd ar 16 Gorffennaf 2026 yn gofyn am:<br>• ddarparu tystiolaeth o fewn y cais a gyflwynwyd mewn perthynas â'r dyletswyddau o dan adrannau 46 a 48 o Ddeddf Cynllunio 2008 (DC2008) fel atodiad i unrhyw ddogfen grynhoi ymgysylltu y gall yr ymgeisydd ddewis ei chyflwyno neu, lle mae'r ymgeisydd yn dewis peidio â chyflwyno dogfen o'r fath, fel dogfen ar wahân o'r enw 'Gwybodaeth adran 46 ac adran 48'<br>• ddarparu tystiolaeth o fewn y cais a gyflwynwyd mewn perthynas â'r adran 55(4)(e) newydd o Ddeddf Cynllunio 2008 (DC2008) mewn fersiwn gyflwyno o'r templed cofnod cyngor estynedig hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | In light of the amended legal framework which will be introduced from 24 July 2026 by the Planning and Infrastructure Act 2025, the Planning Inspectorate issued written advice to the applicant on 16 July 2026 requesting for:<br>• evidence within the submitted application in relation to duties under s46 and s48 of the PA2008 to be provided as an appendix to any engagement summary document that the applicant may choose to submit or, where the applicant chooses not to submit such a document, as a discrete document titled 'Section 46 and section 48 information'<br>• evidence within the submitted application in relation to new s55(4)(e) of the PA2008 to be provided in a submission version of this expanded advice log template | |

| **Future Energy Llanwern – Cofnod o gyngor adran 51 a ddarparwyd i eraill / Log of s51 advice given to others** | | |
|---|---|---|
| **Person y darparwyd y cyngor adran 51 iddo** | **Cyngor adran 51 a ddarparwyd**<br>**s51 advice given** | **Sylw'r ymgeisydd i'r cyngor adran 51 a ddarparwyd** |

| Person s51 advice given to | | Applicant regard to s51 advice given |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |